**CYNGOR CYMDEITHAS LLANNERCH-Y-MEDD COMMUNITY COUNCIL**

**28.7.22**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Caffi'r Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** DAW (Cadeirydd);JAJ; TAJ; RJ; DP; JOJ; GW; LLMH; RY;EY<br><br>**Ymddiheuriadau:** IW;EO;AR<br><br>**Mynychu:** SWR ;<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Emma a Rachael Young i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor hwn. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br><br>Datganodd LLMH; JAJ ddiddordeb mewn unrhyw faterion ar gais cynllunio Ty'n Ffynnon.<br><br>. |
| **3** | **Dogfennau Statudol**<br><br>Cyflwynodd y Clerc Polisi Datrysiad Cwynion ar gyfer cymeradwyaeth. Derbyniwyd y Polisi yn unfrydol (TAJ/JOJ)<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at ddiweddaru'r Rheoliadau Cyllidol yn unol ag arweiniad yr Archwiliwr Mewnol. Cytunwyd yn unfrydol i codi'r hawl i wariant heb 3 pris o £1k i £1.5K (DP/EY) |
| **4** | **Cofnodion 30.6.22**<br><br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 30 Mehefin 2022 fel rhai cywir (DP/TAJ)<br><br>b) Materion yn Codi<br><br>Adroddiadau ROSPA - cafwyd trafodaeth ar y crynodeb o'r adroddiadau cynhwysfawr. Cytunwyd i RJ/RY/GW wneud ymweliad safle nos Lun 1.8.22 ac adrodd yn ôl i'r Clerc ar eu |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG**
Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | hargymhellion erbyn 6.8.22. Hefyd cytunwyd i'r Clerc gysylltu a chwmni MacVenture i geisio argymhellion a phrisiau i ateb gofynion ROSPA. Clerc i ddiweddaru ar y sefyllfa trwy ebost gan na fydd cyfarfod ym mis Awst.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 28.7.22 |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**RJ -** nododd nad yw'r drych gweledol ger Llwyn Drain wedi ei osod. Clerc i roi hwn ar y Cynllun Gweithredu Priffyrdd.<br><br>- Defnydd o ddatgelydd metel yng Nghae Gofeb. Cytunwyd i RJ (neu unrhyw sydd yn dyst i'r defnydd) rybuddio bod angen caniatâd CC Llan i ddefnyddio datgelydd.<br><br>- Clerc i archebu bagiau bin du ar gyfer Glan Menai a Chae Gofeb<br><br>- Nododd bydd angen paentio rheiliau Cae Gofeb cyn Sul y Cofio nesaf<br><br>**RY** - nododd bod nifer i wiwerod coch ym Maes Athen. Cytunodd y Clerc i gysylltu â Trystan Owen CSYM i geisio arweiniad ar faterion i'w diogelu.<br><br>**DP** - adroddodd ar dwll drwg ger mynediad i Henllys - Clerc i ychwanegu at Gynllun Gweithredu Priffyrdd.<br><br>**JOJ** - adroddodd bod arwydd ffordd yn culhau (er Cerrig Llofft) wedi eu taro gan gerbyd mawr fel tractor neu lori gan eu bod yn rhy agos i'r ffordd. Clerc i ychwanegu at CG Priffyrdd<br><br>**TAJ -** nododd bod trigolion yn cwyno bod moduron yn mynd a dod o safle'r Unedau. Cytunwyd i'r Clerc ddwyn i sylw'r PCSO<br><br>**JAJ -** holodd am y posibilrwydd o gais arbennig i BIFFA i nôl y bin ger Capel Peniel. Clerc i holi CSYM/BIFFA<br><br>- Nododd bod carn o'r gwrychyn ger Cae Gofeb wedi marw. Cytunwyd i JAJ ofyn i Richard Owen ail-blannu<br><br>- Yng ngoleuni adroddiad ROSPA a'r gwaith adfer ar y Cae-Amlbwrpas, holodd os fyddai modd i'r Ysgol cyfrannu at unrhyw gostau. Cytunwyd i aros i weld beth fydd y costau cyn holi ymhellach.<br><br>- Holodd am y lluniau coll yn y Caffi. Nodwyd eu bod wedi cael eu tynnu lawr ar gyfer paentio. Clerc i ofyn i Carolyn am ail-osod.<br><br>Nododd y Clerc ei bod yn ceisio chwynnu a rhannu pob e-bost mae'n derbyn (nifer fawr o wanhaol ffynonellau) er mwyn sicrhau bod yr aelodau yn cael eu cadw'n gyfredol o unrhyw ddatblygiadau a gwybodaeth berthnasol. Dewis yr aelodau unigol yw penderfynu beth sy'n berthnasol iddynt hwy. |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Mehefin**<br><br>Scottish Power – CPD £75.22<br>360 Groundcare – ad-daliad £2052 gan CPD £2372.00<br>CSYM - Les Glan Menai £117.30<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>RPO Williams – llwybrau'r Fynwent Gyhoedus £13,125.60<br>ROSPA – archwiliadau blynyddol £420.00<br>Wybone – 6 bocs ychwanegol dal bagiau baw ci £645.83<br>The Sign Factory – pyst a chapiau i'r arwyddion croeso £654.00<br>CPD - Noddi hysbysfwrdd £50<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol £16758.74<br>Cyfrif wrth gefn £11434.87<br>Yr arian yma wedi ei glustnodi ar gyfer Llwybrau'r Fynwent – Clerc ac un llofnodydd arall i weinyddu trosglwyddiad - i'r cyfrif cyfredol - £10K. |
| **7.** | **Materion Cynllunio**<br><br>- **Cais FPL/2022/163 Neuadd Coedana –** dim gwrthwynebiad**.**<br>- |
| **8** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>**Hwyl yr Haf – 29.8.22**<br><br>Cyfeiriodd y Clerc at yr uchod a bod Bella Kennett wedi sicrhau grant Hwyl yr Haf i drefnu diwrnod o weithgareddau i blant y dalgylch yng Nghae Gofeb. Bydd cwmni Elfennau Gwyllt a Môn Actif yn gofalu am y gweithgareddau amrywiol a John Ivor Roberts yn sicrhau disgo. Cyflwynwyd cais i CC Llan am gefnogaeth ariannol i helpu gyda darparu lluniaeth ysgafn i'r plant. Cytunwyd yn unfrydol i dalu am gwn poeth a diod am ddim yn y Caffi - Clerc i weithredu gyda Carolyn Owen.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.50* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383